| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | **PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **29.1.2015 (Cyfarfod Paratoi)** |
| **TEITL** | **Canolfannau Hamdden Gwynedd** |
| **AWDUR** | **Sioned Williams, Pennaeth Economi a Chymuned** |
| **AELOD CABINET** | **Cyng. Mair Rowlands** |
| | |
| **PWRPAS** | **Adrodd i'r cyfarfod paratoi ar gynnydd sydd wedi ei wneud yn dilyn cwblhau adroddiad ar broffil defnyddwyr y Canolfannau Hamdden a chyflwyno argymhellion adolygiad strategol o ganolfannau hamdden Gwynedd gan "*Just Soloutions*".** |

## 1. <u>Adroddiad ar broffil defnyddwyr y Canolfannau Hamdden</u>

### 1.1 Cefndir

Pwrpas yr adroddiad ar broffil defnyddwyr y canolfannau hamdden oedd cael :

- dealltwriaeth o natur y boblogaeth mae pob canolfan hamdden yn ei wasanaethu.
- cadarnhau pa grwpiau o bobl - neu segmentau - sy'n cael eu tangynrychioli ymysg yr aelodaeth bresennol.
- gwybod pa ddarpariaeth fesul canolfan sydd angen ei addasu er mwyn denu'r segmentau o dan ddefnyddwyr.
- adnabod pa sianeli cyfathrebu fyddai orau ei ddefnyddio mewn ymgyrchoedd marchnata sy'n anelu i ddenu'r segmentau o dan ddefnyddwyr.

### 1.2 Diweddariad

Yn dilyn cwblhau'r astudiaeth ymchwil defnyddiwyd y canlyniadau i lunio cynllun marchnata unigol ar gyfer pob canolfan. Bydd Swyddog Cyfathrebu a Marchnata Cymunedau'n Iach yn cydweithio â Rheolwyr Ardal Canolfannau Hamdden i adolygu'r cynnydd yn ystod Chwarter 4, 2014/2015 gyda'r bwriad i :

- gadarnhau os yw'r nifer o bobl o'r segmentau gwahanol wedi cynyddu
- adnabod a oes grŵp arall o bobl sydd angen eu denu
- addasu a chyflwyno cynllun marchnata diwygiedig.

## 2. <u>Adolygiad strategol o Ganolfannau Hamdden Gwynedd gan "*Just Soloutions*"</u>

### 2.1 Cefndir

Pwrpas yr adolygiad strategol o Ganolfannau Hamdden Gwynedd a luniwyd gan ymgynghorwyr "***Just Solutions***" oedd i:

- adeiladu ar y gyfres o adolygiadau rheiny wnaethpwyd rhwng 2007-2012
- argymell sut gellir datblygu canolfannau hamdden sy'n addas, effeithlon ac yn gynnialdwy ar gyfer y dyfodol.

- sefydlu sail resymegol a phwrpas i ganolfannau hamdden a'u gwasanaethau yn y dyfodol.
- cynorthwyo Cyngor Gwynedd i lunio opsiynau a strategaeth ar gyfer cyfleusterau a gwasanaethau hamdden i'r dyfodol.

**2.2 Diweddariad**

Yn dilyn adrodd canlyniadau'r adolygiad strategol i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaeth ar 28ain Tachwedd 2013 ac i'r fforymau ardal; lluniwyd cyfres o gynigion arbedion effeithlonrwydd ar gyfer gwasanaeth hamdden. Seliwyd y cynigion ar egwyddorion ac argymhellion yr adroddiad strategol.

Mae'r cynigion arbedion effeithlonrwydd gwerth £1.05 miliwn bellach wedi eu hymgorffori fel rhan o Strategaeth Ariannol y Cyngor ar gyfer 2014/2015 - 2017/2018 a gymeradwyid gan y Cabinet ar y 16eg o Ragfyr 2014 yn dilyn cyflwyno'r adroddiad cynigion effeithlonrwydd 2015-2016 i 2017/2018.

Rhestri'r isod y cynigion arbedion effeithlonrwydd gyflwynwyd ar gyfer Gwasanaeth Cymunedau Iach:

- Adolygu a Rhesymoli Strwythurau rheoli newydd Canolfannau Hamdden
- Cynyddu lefelau ffioedd
- Adolygu a rhesymoli strwythurau canolog Gwasanaethau Cymunedau Iach
- Rhedeg cyfleusterau hamdden yn fwy effeithlon
- Cynnal tiroedd
- Trosglwyddo Neuadd Chwaraeon Arfon, Bangor
- Trosglwyddo Trac Treborth

Ceir disgrifiad byr o bob cynnig yn ogystal â gwybodaeth am effaith ar bobl Gwynedd y nifer o swyddi llawn amser effeithir â'r arbediad cysylltiedig yn yr adroddiad sydd wedi ei nodi uchod.

Mae'r gwaith sy'n ymwneud a gwireddu'r arbediad o £1.05 miliwn yn cael ei hyrwyddo a'i gydlynu gan Fwrdd Prosiect Trawsnewid Gwasanaethau Hamdden (BPTGH) ac yn adrodd ar gynnydd i Banel Cyflawni Y Cynghorydd Mair Rowlands.

Blaenoriaeth BPTGH ar gyfer 2015/2016 fydd canolbwyntio ar raglen waith fydd yn llunio gweledigaeth a chyfeiriad strategol hir dymor ar gyfer Canolfannau Hamdden Cyngor Gwynedd a chyflawni'r arbedion nodedig.